OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 1437 (Cy. 147)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2015

Gwnaed	*29 Mai 2015*
Yn dod i rym	*5 Mehefin 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

"ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road ")* yw'r darn o'r gefnffordd ym Mhontnewydd ar Wy yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1546 hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

Atal Dros Dro

4. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder o 30 mya) 2014**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2(1), drwy hyn wedi eu hatal yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para 'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mai 2015

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd O.S. erthygl 2 o 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2014/3116 (Cy.315)